# PWYLLGOR CRAFFU'R CABINET

**(O Bell Trwy Teams)**

**Aelodau sy'n Bresennol:** **Dydd Mercher, 12 Mai 2021**

| | |
|---|---|
| **Is-gadeirydd:** | **Cynghorydd S.Rahaman** |
| **Cynghorwyr**: | S.E.Freeguard, N.T.Hunt, S.K.Hunt, D.Keogh, S.A.Knoyle, A.Llewelyn, S.Miller, R.Mizen, S.Paddison, S.M.Penry, S.H.Reynolds, A.N.Woolcock, W.F.Griffiths, A.R.Aubrey, J.Hale a/ac R.W.Wood |
| **Swyddogion sy'n Bresennol:** | K.Jones, A.Jarrett, A.Thomas, N.Pearce, H.Jenkins, C.Griffiths, D.Giles, C.Furlow-Harris, D.Griffiths, P. Jackson, J.Stevens, J.Woodman-Ralph a/ac C.Plowman |
| **Gwahoddedigion y Cabinet:** | Cynghorwyr M.Harvey, D.Jones, L.Jones, E.V.Latham, A.R.Lockyer, P.A.Rees a/ac P.D.Richards |

## 1. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Gwnaeth yr Aelod canlynol ddatganiad o fudd:

| | |
|---|---|
| Y Cyng. S Reynolds Parthed. | Eitem 6 - Model Ariannu Cludiant Cymunedol Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol gan ei bod yn Ymddiriedolwr Canolfan Maerdy ac yn ariannwr Cludiant Cymunedol yng Nghwm Afan drwy'r cynllun Cynghorwyr Ward |

## 2. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 24 Chwefror 2021, 8 Mawrth 2021 a 16 Mawrth 2021.

3. **CRAFFU CYN PENDERFYNU**

Craffodd y Pwyllgor ar yr eitemau canlynol ar agenda'r Cabinet:

Model Ariannu Cludiant Cymunedol Arfaethedig ar gyfer y Dyfodol

Diweddarwyd yr aelodau am y cais i ddiwygio'r dull o ddyrannu cyllid y Grant Cefnogi Gwasanaethau Bysus, sydd ar gael i sefydliadau Trafnidiaeth Gymunedol, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Gofynnwyd a fyddai unrhyw sefydliadau trafnidiaeth gymunedol eraill yn gymwys i wneid cais am y cyllid. Cadarnhawyd y byddai'r cynllun ar agor i bob sefydliad sy'n gweithredu o fewn Castell-nedd Port Talbot.

Cafwyd trafodaethau ynghylch strategaeth Llywodraeth Cymru, wrth gefnogi cynlluniau o'r natur hon sy'n gynaliadwy ac a ddarperir yn lleol. Nodwyd bod Llywodraeth Cymru'n adolygu'r holl gynlluniau ariannu ar hyn o bryd o ran trafnidiaeth, ac roedd y cyngor yn aros am y manylion.

Mynegwyd pryderon am y prif gwmnïau trafnidiaeth megis 'First Cymru' yn lleihau eu gwasanaethau yn dilyn integreiddio trafnidiaeth gymunedol. Sicrhaodd swyddogion yr aelodau na fyddai'r gwasanaethau yn gweithio'n gystadleuol yn erbyn ei gilydd ac yn hytrach yn gweithio gyda'i gilydd. Trafnidiaeth gymunedol yn cael ei hystyried fel gwasanaeth ychwanegol.

Gofynnodd yr aelodau i'r swyddogion a fyddent yn ystyried amlygu'r pryderon ynghylch materion trafnidiaeth mewn adrannau eraill i Lywodraeth Cymru. Defnyddiodd yr aelodau y Gwasanaethau Cymdeithasol fel enghraifft, gan amlygu'r anawsterau y mae gofalwyr yn eu hwynebu wrth geisio teithio i'r rheini y mae angen gofal arnynt. Roedd swyddogion yn cydnabod bod y pryderon hyn yn berthnasol nid yn unig i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond mewn meysydd eraill hefyd, gan y gall trafnidiaeth fod yn gyfyngedig ar wahanol adegau o'r diwrnod a byddent yn rhoi adborth am hyn i'r grŵp adolygu bysus.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet.

Cynllun Corfforaethol 2021-2023

Darparwyd Cynllun Corfforaethol diweddaredig i'r aelodau ar gyfer y cyfnod 2021 - 2023 i'w ystyried, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Nododd aelodau fod yr Amcanion Lles yr un amcanion a gytunwyd yn 2017 ac roedd y cynllun drafft yn fwy o ddatganiad sefyllfa a oedd yn manylu ar sefyllfa bresennol y cyngor o ran y pandemig a'r cynllun adfer.

Gofynnodd yr aelodau am eglurder ynghylch y cynllun ymgynghori ac ymgysylltu a fanylwyd yn yr adroddiad. Esboniodd swyddogion eu bod yn y broses o ddatblygu cynllun ymgynghori ac ymgysylltu a fyddai'n cynnwys barn y gymuned a sefydliadau cymunedol.

Cafwyd trafodaethau ynghylch Ansawdd Aer, nodwyd yn y cyfarfod y byddai'n well trafod y pwnc hwn y tu allan i'r cyfarfod.

Gofynnodd yr aelodau beth fyddai'r mecanwaith adrodd mewn perthynas â'r camau gweithredu a nodwyd o'n cynllun gweithredu Asesiad o Ddigonolrwydd Gofal Plant, a fanylwyd ar dudalen 79 o'r adroddiad. Cadarnhaodd swyddogion y byddent yn darparu'r wybodaeth hon y tu allan i'r cyfarfod.

Yn dilyn y broses graffu, roedd y pwyllgor yn gefnogol o'r cynigion i'w hystyried gan y Cabinet

Cyd-bwyllgor Corfforedig Rhanbarthol De-orllewin Cymru

Rhoddwyd trosolwg cryno i'r aelodau am y gofyniad i sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig (CBC) ynghyd â cheisio awdurdod dirprwyedig i swyddogion gymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r awdurdodau, fel a nodwyd yn yr adroddiad, i ddatblygu cynigion addas ar gyfer y trefniadau CBC yn Ne-orllewin Cymru, fel a fanylwyd yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

Mynegodd yr aelodau bryderon ynghylch sefydlu Cyd-bwyllgorau Corfforedig a'r trefniadau llywodraethu ynghylch CBC. Roedd aelodau'n teimlo y dylid fod wedi cwblhau proses ymgynghori cyn cyflwyno'r ddeddfwriaeth, gan ystyried barn Aelodau Castell-nedd Port Talbot ymlaen llaw.

Yn dilyn dadl gref roedd y pwyllgor yn gefnogol or cynigion a gofynnwyd i'r Cabinet ystyried yr argymhelliad ychwanegol canlynol:

- Cyflwyno sylwadau i Lywodraeth Cymru i fynegi pryderon am Gydbwyllgorau Corfforedig fel y trafodwyd yng nghyfarfod Pwyllgor Craffu'r Cabinet a'r Cabinet ar 12 Mai 2021.

4. **<u>BLAENRAGLEN WAITH 2021-22</u>**

Nododd y Pwyllgor Flaenraglen Waith Craffu'r Cabinet Lywodraethwyr 2020/21.

**CADEIRYDD**